

Y newyddlen ar gyfer aelodau sy'n cyfrannu at Gronfa Bensiynau Clwyd: Gaeaf 2024, Rhifyn 27B

Croeso

Mae'r rhifyn hwn o PENPAL yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi ynglŷn â'ch pensiwn sy'n cronni gyda Chronfa Bensiynau Clwyd. Mae'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol fel:

- Mathau o Ymddeoliad
- Dangosfwrdd Pensiynau
- Diweddariad ariannol am Gronfa Bensiynau Clwyd
- Newidiadau i'r Lwfans Oes

Cysylltwch os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am unrhyw wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y newyddlen hon. Mae ein manylion cyswllt ni ar gael ar waelod y newyddlen hon.

Cofion cynnes,

Karen Williams

Rheolwr Gweinyddu Pensiynau



Rheoliadau: Beth yw pensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol?

Yn 2014 newidiodd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o fod yn gynllun cyflog terfynol i fod yn gynllun enillion cyfartalog gyrfa wedi'u hailbriso (cynllun ECGA). Mae hyn yn golygu fod unrhyw bensiwn rydych wedi ei gronni yn y cynllun ar ôl 1 Ebrill wedi ei seilio ar y cyflog rydych yn ei ennill bob blwyddyn, yn hytrach nag ar y cyflog terfynol pan rydych yn gadael.

- Bydd yr holl fuddion rydych wedi eu hennill hyd at Ebrill 2014 yn parhau i gael eu hamddiffyn fel buddion cyflog terfynol.
- Ar gyfer pob blwyddyn rydych yn y cynllun ECGA byddwn yn ychwanegu pensiwn sy'n gyfystyr â 1/49 o'ch cyflog pensiynadwy i'ch cyfrif pensiwn, neu 1/98 o'ch cyflog am unrhyw gyfnod a dreuliodd yn yr adran 50:50. (Mae'r adran 50:50 yn eich galluogi chi i leihau eich cyfraniadau fesul hanner ac yn gyfnewid am hynny cronni hanner eich buddion pensiwn arferol). Caiff hyn wedyn ei ailbriso bob blwyddyn yn unol â chwyddiant.

Os oeddech chi'n cyfrannu at y cynllun cyn 1 Ebrill 2014, bydd eich buddion pensiwn terfynol yn gyfuniad o gyflog terfynol a buddion cyfartaledd gyrfa.

Cyfathrebu: Cofio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni

I sicrhau eich bod yn parhau i gael diweddariadau pwysig ynglŷn â'ch pensiwn gan Gronfa Bensiynau Clwyd, cofiwch ddiweddarau eich manylion personol os oes unrhyw beth amdano yn newid:

- Gadewch i ni wybod os ydych yn newid eich enw ac anfonwch gopi o'r dystysgrif berthnasol atom fel tystiolaeth. Mae hyn yn ein helpu i gadw eich cofnodion yn gywir.
- Os ydych yn priodi, ysgaru, neu os oes unrhyw newidiadau eraill yn eich statws priodasol, dywedwch wrthym. Gall hyn effeithio ar fuddion pensiwn y partner sy'n goroesi.
- Os ydych yn symud, rhwch eich cyfeiriad newydd i ni er mwyn i ni allu cysylltu â chi gyda gwybodaeth bwysig.

Gallwch ddiweddarau rhai o'r manylion hyn eich hun trwy fewngofnodi i'ch cyfrif **Hunanwasanaeth Aelodau**. Neu, gallwch adael i ni wybod trwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost neu'r cyfeiriad postio ar ddiwedd y newyddlen hon.

Cyfathrebu: Canllaw Syml i Bensiynau

Os ydych eisiau gwybod mwy am eich pensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ond nad oes gennych lawer o amser, edrychwch ar y fideos Canllaw Syml i Bensiynau. Bydd y naw fideo byr hyn yn rhoi cyflwyniad sydyn i chi i bynciau fel 'Beth yw pensiwn?', 'Sut mae eich pensiwn yn gweithio', 'Gofalu am eich pensiwn', ac 'Amddiffyniad i chi a'ch teulu'. Gallwch wyllo'r fideos drwy'r ddolen hon: www.lgpsmember.org/help-and-support/videos/?lang=cymraeg

Cyfathrebu: Cyfrifianellau defnyddiol

Rydym wedi ychwanegu rhai dolenni newydd i'n gwefan i'w gwneud yn haws i chi ddod o hyd i rai cyfrifianellau defnyddiol. Mae'r cyfrifianellau hyn yn yr adran "Dolenni Sydyn" melyn ar hafan ein gwefan. Rhai o'r cyfrifianellau sydd ar gael i chi yw:

- cyfrifiannell uchafswm cyfandaliad,
- cyfrifiannell uchafswm cyfandaliad CGY,
- cyfrifiannell i gyfrifo eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth, a
- cyfrifiannell i gyfrifo gwerth eich Pensiwn y Wladwriaeth

Mae'r adnoddau hyn yn rhad ac am ddim i'w defnyddio unrhyw bryd, i'ch helpu i gynllunio a gweld sut allai eich ymddeoliad fod yn y dyfodol. (Mae'r cyfrifianellau hyn yn eich tywys i wefannau allanol, felly efallai y byddant yn uniaith Saesneg).



Rheoliadau: Mathau o ymddeoliad

Dyma'r gwahanol fathau o ymddeoliad sydd ar gael i aelodau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a sut maen nhw'n gweithio.

Ymddeoliad arferol

Eich oedran ymddeol arferol yw un ai eich Oedran Pensiwn y Wladwriaeth neu 65 os yw hynny'n hwyrach.

Os ydych yn dechrau cymryd eich pensiwn o'ch oedran ymddeol arferol byddwch yn derbyn y cyfanswm yn llawn heb unrhyw ostyngiadau.

Ymddeoliad cynnar

Os ydych yn gadael rhwng 55 oed a'ch oedran ymddeol arferol, fe allwch barhau i dderbyn eich pensiwn ar unwaith.

Bydd y pensiwn yn cael ei ostwng gan eich bod yn ei gymryd yn gynnar. Y cynharaf y byddwch yn mynd, yna yr isaf fydd eich pensiwn.

Does dim rhaid i chi gymryd y pensiwn os nad ydych yn dymuno gwneud hynny. Gallwch ddewis i ohirio'r pensiwn am y tro a'i dderbyn yn y dyfodol. Os oeddech chi'n talu cyfraniadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol cyn 1 Hydref 2006, mae'n bosibl eich bod yn bodloni Rheol 85. Byddwch yn bodloni Rheol 85, os yw'r canlynol yn hafal i 85 neu fwy wrth eu hadio at ei gilydd:

- Eich oedran pan ddechreuwch chi gymryd eich buddion o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a
- Nifer y blynyddoedd y taloch chi gyfraniadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ac

Os ydych yn bodloni Rheol 85, mae hyn yn golygu na fyddai rhan o'ch pensiwn yn cael ei ostwng hyd yn oed os ydych yn cymryd ymddeoliad cynnar. Dim ond os byddwch yn dechrau cymryd eich pensiwn yn 60 oed y bydd Rheol 85 yn cael ei gweithredu'n awtomatig. Os ydych chi'n bodloni Rheol 85 ac yn dymuno cymryd eich pensiwn cyn i chi droi'n 60 oed, bydd yn rhaid i chi gael caniatâd eich cyflogwr er mwyn gweithredu'r rheol. Os nad yw eich cyflogwr yn rhoi caniatâd, gallwch barhau i gymryd eich pensiwn, ond fe fydd yn is na'r swm y byddech wedi'i dderbyn pe bai'r Rheol 85 wedi'i gweithredu.



Ymddeoliad hwyr

Os ydych yn gadael rhwng yr oedran ymddeol arferol a 75 oed, fe allwch dderbyn eich pensiwn ar unwaith. Bydd y pensiwn ychydig yn uwch gan eich bod yn ei gymryd yn hwyrach na'r disgwyl. Yr hwyraf y byddwch yn mynd, yna yr uchaf fydd eich pensiwn. Os ydych yn parhau i weithio y tu hwnt i'ch pen-blwydd yn 75 oed, mae'n rhaid i chi roi'r gorau i dalu cyfraniadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a dechrau derbyn eich pensiwn.

Dileu swydd neu Effeithlonrwydd y Gwasanaeth

Os ydych chi dros 55 oed a bod eich swydd yn cael ei dileu neu os ydych chi'n gadael o ganlyniad i effeithlonrwydd y gwasanaeth, mae'n rhaid i chi dderbyn eich pensiwn ar unwaith. O dan y rheolau presennol, ni fydd y pensiwn yn cael ei ostwng ar gyfer taliad cynnar.

Er na fydd y pensiwn yn cael ei ostwng, ni fydd yn cynyddu chwaith i roi'r pensiwn i chi y gallech fod wedi ei gronni pe baech wedi parhau i dalu cyfraniadau tan eich oedran ymddeol arferol.

Os ydych wedi talu cyfraniadau ychwanegol i wella gwerth eich pensiwn, bydd y rhan hwn o'ch pensiwn yn cael ei ostwng os ydych yn gadael cyn oedran ymddeol arferol.

Ymddeoliad Hyblyg

Mae ymddeoliad hyblyg yn eich galluogi chi i ddechrau derbyn y pensiwn rydych eisoes wedi ei gronni a pharhau i weithio i'r un cyflogwr ac ennill cyflog. Fe fydddech yn parhau i dalu cyfraniadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac yn cronni ail pensiwn llai ar gyfer pan fyddwch yn ymddeol yn llawn. Mae'n rhaid i chi fodloni amodau penodol cyn y gallwch wneud hyn:

- Mae'n rhaid i chi fod yn 55 oed neu'n hŷn;
- Mae'n rhaid i chi un ai leihau eich oriau gwaith neu symud i swydd gyda chyflog is, ac
- Mae'n rhaid i chi gael caniatâd eich cyflogwr. (Mae'n rhaid i'ch cyflogwr fod â pholisi ymddeol hyblyg cyn cytuno).

Bydd y pensiwn yn cael ei leihau os ydych yn ymddeol yn hyblyg cyn oed ymddeol arferol. Y cynharaf y byddwch yn mynd, yr isaf fydd eich pensiwn.

Ymddeol ar Sail Afiechyd

Os oes angen i chi adael eich swydd o ganlyniad i afiechyd, fe allech dderbyn eich pensiwn ar unwaith.

Bydd eich cyflogwr yn gofyn i feddyg annibynnol i gadarnhau:

- Eich bod nawr yn analluog yn barhaol i wneud eich swydd gyfredol
- Nad ydych yn gallu cymryd unrhyw waith cyflogedig ar unwaith. Mae hyn yn golygu gwaith cyflogedig am 30 awr yr wythnos neu fwy, am o leiaf blwyddyn lawn.

Mae yna dair haen o ymddeoliad ar sail afiechyd, yn dibynnu ar gyflwr yr afiechyd. Ym mhob un o'r tair haen ni fyddai eich pensiwn yn cael ei ostwng ar gyfer taliad cynnar.

Haen 1	Haen 2	Haen 3
• Rydych yn annhebygol o fod yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig cyn oedran ymddeol arferol. • Bydd eich pensiwn yn cynyddu i gynnwys y gwasanaeth y gallech fod wedi ei gronni i oedran ymddeol arferol. • Mae'r pensiwn yn daladwy am oes.	• Rydych yn annhebygol o fod yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig o fewn 3 blynedd o adael, ond yn debygol o fod yn gallu cyn oedran ymddeol arferol. • Bydd eich pensiwn yn dal i gynyddu, ond o 25% o'r swm ychwanegol y byddai Haen 1 wedi ei ychwanegu. • Mae'r pensiwn yn daladwy am oes.	• Rydych yn debygol o fod yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig o fewn 3 blynedd o adael. • Byddai eich cyn-gyflogwr yn adolygu eich pensiwn ar ôl 18 mis. ▪ Os ydych yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig, bydd y pensiwn yn dod i ben. ▪ Os nad ydych yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig o hyd ond y byddwch yn gallu yn y 18 mis nesaf, fe fydd pensiwn Haen 3 yn parhau am 18 mis arall neu hyd nes y byddwch yn gallu gweithio eto. ▪ Os nad ydych yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig, a bod eich afiechyd wedi gwaethygu, fe all eich cyn-gyflogwr gynyddu'r pensiwn i Haen 2 o ddyddiad yr adolygiad. Os ydych yn derbyn pensiwn Haen 3 ac yna yn dod i allu ymgymryd â gwaith cyflogedig eto, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'ch cyn-gyflogwr. Unwaith y bydd eich taliadau pensiwn Haen 3 wedi dod i ben, fe allwch ddechrau eu derbyn eto ar unrhyw bwynt o 55 oed. Bydd eich pensiwn yn cael ei ostwng os ydych yn dechrau ei dderbyn eto cyn oedran ymddeol arferol.

Os ydych dros 55 oed ac yn optio allan o dalu cyfraniadau, ni allwch dderbyn eich pensiwn ar unwaith. Mae'n rhaid i chi adael y swydd yr ydych wedi optio allan ohoni yn gyntaf, oni bai eich bod yn 75 oed.

Rheoliadau: Datrysiaid McCloud

Yn gynharach eleni fe ofynnem i chi gwblhau ffurflen bensiynau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a sector cyhoeddus blaenorol i'n helpu i ganfod os gall y Datrysiaid McCloud effeithio arnoch chi. Diolch am anfon y ffurflenni wedi eu llenwi yn ôl atom ni. Os nad ydych wedi llenwi ffurflen, lawrlwythwch y ffurflen o'r adran **ffurflenni ac adnoddau** ar ein gwefan neu cysylltwch i ofyn am gopi. Mae angen y ffurflen i sicrhau ein bod yn gweithredu Datrysiaid McCloud i'ch pensiwn (os yw hynny'n berthnasol) pan rydych yn gadael y cynllun pensiwn yn y dyfodol.

Gallwch ddarllen rhagor am Ddatrysiaid McCloud a gwylio fideo byr ar wefan y CPLIL cenedlaethol:

www.lgpsmember.org/mccloud-remedy (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg)



Cyllid: Cipolwg o ffeithiau a ffigyrau 2023/2024



Bydd ein cyfrifon ar gyfer 2023/2024 yn cael eu cynnwys yn Adroddiad Blynnyddol y gronfa fydd ar gael ar ein gwefan ar ddiwedd 2024. Yn y cyfamser, dyma’r ffigyrau a archwiliwyd ar gyfer 2022/2023.

Telir y cyfraniadau i mewn i’r gronfa gan gyflogwyr a’u gweithwyr. Caiff unrhyw arian nad oes ei angen i dalu buddion pensiwn yn y tymor byr ei fuddsoddi i ddarparu buddion yn y dyfodol. Caiff y cyfraniadau eu buddsoddi yn unol â’n Strategaeth Fuddsoddi a’n Polisi Buddsoddi Cyfrifol. Mae ein Datganiad Strategaeth Fuddsoddi i’w weld yn adran strategaethau a pholisïau ein gwefan:

mss.clwydpensionfund.org.uk/home/investments-and-governance/strategies-and-policies

Gan fod y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun â buddion diffiniedig, nid yw buddsoddiadau’r gronfa’n cael unrhyw effaith ariannol ar werth eich buddion pensiwn chi. Felly darperir y ffigyrau isod er gwybodaeth yn unig.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynglŷn â buddsoddiadau neu gyfrifon y Gronfa, mae croeso i chi anfon neges e-bost at buddsoddiadaupensiwn@sirymfflint.gov.uk

Incwm 2022/2023		Gwariant 2022/2023	
Incwm	£m	Gwariant	£m
Gweithwyr	20,006	Pensiynau	70,631
Cyflogwyr	72,117	Cyfandaliadau	17,267
Incwm buddsoddi	34,269	Arall	34,673
Arall	6,244	Arian newydd net	10,065
	<u>132,636</u>		<u>132,636</u>
Cyfranwyr 31 Mawrth 2023		Pensiynwyr 31 Mawrth 2023	
Pob cyfranwr	<u>17,671</u>	Aelodau wedi ymddeol a dibynyddion	15,151
		Buddion a gedwir	18,424
			<u>33,575</u>
Gwerth y gronfa ar y farchnad ar 31 Mawrth 2023		Newid mewn asedau net	
	£m		£m
Gwarantau llog sefydlog	894,584	Y Gronfa ar 1 Ebrill 2022	2,490,795
Ecwitiau’r DU	0	Arian newydd net	10,065
Ecwitiau tramor	245,739	Newidiadau yng ngwerth y farchnad yn ystod y flwyddyn	
Buddsoddiadau amgen	1,059,268	Elw a wireddwyd a nas elw	-198,262
Arian parod	98,590	Y Gronfa ar 31 Mawrth 2023	<u>2,302,598</u>
Asedau net	4,417		
	<u>2,302,598</u>		

Rheoliadau: Enwebiadau grant marwolaeth

Mae'r CPLIL yn darparu yswiriant bywyd ac amddiffyniad i'ch teulu. A wydddech chi, pe baech yn marw, yn ogystal â phensiwn partner sy'n goroesi, efallai y bydd grant untro hefyd yn daladwy adeg eich marwolaeth? Gallwch enwebu pwy bynnag y dymunwch, er enghraifft teulu, ffrindiau neu hyd yn oed elusennau. Dylech roi gwybod i ni i bwy yr hoffech i unrhyw grant marwolaeth gael ei dalu. Gallwch wneud hyn drwy lenwi ffurflen mynegi dymuniad neu drwy ddiweddarw eich dymuniadau ar-lein ar eich cyfrif MSS. Gallwch ddod o hyd i ffurflen mynegi dymuniad yn yr adran **ffurflenni ac adnoddau** ar ein gwefan. Os oes arnoch chi angen copi papur, cysylltwch â ni.

Os ydych chi'n marw pan fyddwch yn dal i weithio cyn eich bod yn 75 oed, a'ch bod yn parhau i fod yn talu cyfraniadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae cyfanswm deirgwaith eich cyflog pensiynadwy tybiedig yn daladwy fel grant marwolaeth. Os ydych chi wedi talu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) drwy'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae gwerth eich cronfa CGY hefyd yn daladwy.

Mae'n rhaid i unrhyw grant marwolaeth gymryd i ystyriaeth os oes gennych chi unrhyw bensiynau eraill mewn Cronfeydd eraill o dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Fe fyddwn yn gwirio gyda Chronfeydd eraill y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru a Lloegr i weld os oes gennych chi:

- Unrhyw gyfrifon pensiwn wedi eu gohirio gyda nhw: hynny yw nad oeddech yn talu cyfraniadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mwyach ond nad ydych yn derbyn taliadau pensiwn eto
- Unrhyw gyfrifon pensiynwr gyda nhw: hynny yw roeddech yn derbyn taliadau pensiwn gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Bydd y grant a fydd yn daladwy wedyn yr uchaf o'r isod:

- Y swm marw yn y swydd a fyddai deirgwaith eich cyflog pensiynadwy tybiedig a hefyd gwerth unrhyw Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol; neu
- Gyfanswm y buddion marwolaeth o'ch cyfrifon gohiriedig neu bensiynwr yng nghronfeydd eraill y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Rheoliadau: Newidiadau i'r lwfans oes

Pan fyddwch yn dechrau hawlio eich pensiwn, byddwn yn cyfrifo eich buddion safonol.

- Os oeddech yn aelod Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar neu cyn 31 Mawrth 2008, mae eich buddion safonol yn cynnwys pensiwn blyneddol a chyfandaliad awtomatig
- Os daethoch yn aelod Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar neu ar ôl 1 Ebrill 2008, mae eich buddion safonol yn cynnwys pensiwn blyneddol yn unig. Ni fydd gennych gyfandaliad awtomatig.

Yn ogystal â hyn, gall y rhan helaeth o aelodau gymryd hyd at 25% o werth cyffredinol eu pensiwn fel cyfandaliad. Fel arfer bydd y cyfandaliad yn ddi-dreth. Mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi wedi pennu terfyn ar gyfanswm yr arian di-dreth y gallwch ei gymryd o holl gynlluniau pensiwn y Deyrnas Gyfunol. Mae'r terfyn sydd wedi disodli'r Lwfans Oes ar adeg ymddeol yn cael ei alw'n lwfans cyfandaliad. Ar hyn o bryd, mae hyn yn £268,275. Os yw cyfanswm yr holl gyfandaliadau rydych yn eu cymryd o bensiynau'r DU yn fwy na'r terfyn, bydd rhaid i chi dalu treth ychwanegol. Mae mwy o wybodaeth am y lwfansau cyfandaliad newydd ar wefan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn genedlaethol: www.lgpsmember.org/your-pension/the-essentials/tax (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Os ydych yn dymuno cymryd cyfandaliad pan fyddwch yn cymryd eich pensiwn, mae'n rhaid i ni wybod am unrhyw fuddion pensiwn rydych wedi eu cymryd yn flaenorol i sicrhau nad ydych yn mynd dros y terfynau cyfandaliad. Er na effeithir ar y rhan fwyaf o aelodau, rhaid i ni gynnal y gwiriadau i bawb.

Cyn 6 Ebrill 2024, roedd y lwfans oes yn cyfyngu cyfanswm buddion pensiwn y gallai unigolyn ei gael cyn iddynt dalu treth ychwanegol. Mae'r Llywodraeth wedi gostwng y lwfans oes deirgwaith ers iddo ddod yn weithredol yn 2006. Bob tro roedd yn gostwng, gallai'r unigolion hynny a oedd eisoes wedi cronni pensiynau mawr ymgeisio am amddiffyniad rhag y gostyngiad.

Er nad yw'r lwfans oes bellach yn bodoli os oes gennych amddiffyniad lwfans oes gallai eich lwfans cyfandaliad wrth ymddeol a'ch cyfandaliad a'ch lwfans budd marwolaeth fod yn uwch na'r cyfyngiadau safonol newydd. Mae'n rhaid i chi hysbysu eich cronfa bensiynau ynglŷn ag unrhyw amddiffyniad lwfans oes cyn i chi gymryd cyfandaliad.

Beth yw'r mesurau amddiffyn?

Amddiffyniad Unigol 2016 (IP16)	Amddiffyniad Penodol 2016 (FP16)
Mae'n bosibl fod gennych chi Amddiffyniad Unigol 2016 (IP16) os cafodd eich cynilion pensiwn eu prisio dros £1 miliwn ar 5 Ebrill 2016. Mae'n gosod eich terfyn amddiffyn i beth oedd gwerth eich cynilion ar 5 Ebrill 2016 (hyd at uchafswm o £1.25 miliwn).	Mae Amddiffyniad Penodol 2016 (FP16) ar gyfer aelodau sydd wedi rhoi'r gorau i dalu cyfraniadau i'w pensiwn ar ôl 5 Ebrill 2016. Mae'n gosod y terfyn amddiffyn ar £1.25 miliwn. Gan eich bod yn parhau i gyfrannu i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ni fyddai'r amddiffyniad hwn yn berthnasol.

Gallwch barhau i wneud cais i Refeniw a Thollau Ei Fawrhydi ar gyfer Amddiffyniad. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw **5 Ebrill 2025**. Gallwch ddefnyddio'r ddolen hon i wefan y Llywodraeth i gael gwybodaeth fanylach:

<https://www.gov.uk/guidance/pension-schemes-protect-your-lifetime-allowance> (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Awgrymiadau Clwyd

Yn adran hon y newyddlen, mae'r gronfa'n cynnig awgrymiadau a gwybodaeth ar faterion nad ydynt yn ymwneud â'r CPLIL.

Gweld eich rhagolygon Pensiwn y Wladwriaeth

Yn Ebrill eleni, bu i'r Llywodraeth gyhoeddi gwasanaeth ar-lein newydd i helpu pobl i weld manylion eu Pensiwn y Wladwriaeth. Mae'r gwasanaeth yn caniatáu'r rhan fwyaf o bobl o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth i weld bylchau yn eu cofnod yswiriant gwladol a thalu cyfraniadau gwirfoddol i lenwi'r bylchau hynny, os bydd o fantais iddynt:

www.gov.uk/voluntary-national-insurance-contributions (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Gallwch hefyd ddefnyddio'r ddolen ganlynol i weld eich rhagolwg Pensiwn y Wladwriaeth eich hun:

www.gov.uk/check-state-pension (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Dangosfwrdd Pensiynau

Mae'r Dangosfwrdd Pensiynau yn fenter newydd gan y Llywodraeth a fydd yn caniatáu i chi weld eich holl bensiynau ar-lein, yn ddiogel ac i gyd mewn un lle. Bydd yn cynnwys gwybodaeth eglur a chryno ynglŷn â'ch cynilion mewn amryw gronfeydd pensiwn, gan gynnwys eich Pensiwn y Wladwriaeth. Mae Cronfa Bensiynau Clwyd yn gweithio'n galed y tu ôl i'r llenni i sicrhau ein bod yn barod i gysylltu â'r Dangosfwrdd erbyn y dyddiad cau cyfredol a roddwyd i gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sef 31 Hydref 2025. Rhaid i holl ddarparwyr pensiwn y DU gysylltu â'r Dangosfwrdd newydd erbyn 31 Hydref 2026. Yn ddiweddar rydym wedi cynnal ymarfer glanhau data i aelodau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ein cronfa i sicrhau bod gennym wybodaeth gyfredol ar eich cyfer, fel enw a chyfeiriad. Mae hyn oherwydd ein bod angen eich gwybodaeth fwyaf cyfredol er mwyn i chi weld gwybodaeth am eich pensiwn ar y Dangosfwrdd. Os ydych wedi eich cynnwys yn ein hymarfer glanhau data, byddwch wedi cael llythyr yn egluro sut i ddiweddarau eich manylion gyda ni.

Gallwch ddarllen mwy am y Dangosfwrdd Pensiynau yma:

<https://www.pensionsdashboardsprogramme.org.uk> (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).



Safonau Byw mewn Ymddeoliad

Mae Cymdeithas Pensiynau ac Arbedion Oes (PLSA) wedi cyhoeddi'r astudiaeth ddiweddaraf ar y Safonau Byw mewn Ymddeoliad. Yn seiliedig ar ymchwil annibynnol gan Brifysgol Loughborough, mae'r safonau'n anelu i ddileu ansicrwydd ynghylch cynllunio ar gyfer ymddeoliad ac egluro sut allai ymddeoliad fod ar dair safon wahanol. Y ffigyrau isod yw'r symiau blyneddol y byddech eu hangen i gael ffordd o fyw benodol.

Isafswm	Cymedrol	Cyfforddus
Sengl: £14,400	Sengl: £31,300	Sengl: £43,100
Cwprwl: £22,400	Cwprwl: £43,100	Cwprwl: £59,000
Yn bodloni eich holl ofynion, gyda rhywfaint yn weddill	Mwy o sicrwydd a hyblygrwydd ariannol	Mwy o ryddid ariannol a rhywfaint o eitemau moethus

Nawr yn ei bumed flwyddyn, mae'r ymchwil hwn wedi dod yn feincnod ar gyfer y diwydiant pensiynau a'r Llywodraeth. Bu i grwpiau ffocws yn cynnwys trigolion y DU o gefndiroedd gwahanol gymryd rhan yn yr ymchwil. Bu iddynt siarad am eu disgwyliadau o ran ymddeoliad, a'r cyfleoedd a'r dewisiadau maent eu hangen i gymryd rhan mewn cymdeithas.

Cyfrifwyd y costau gwario ar gyfer pob un o'r tair safon yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr, yn y categorïau canlynol:

Tai	Bwyd	Cludiant	Gwyliau a hamdden	Dillad a phersonol	Helpu eraill

Mae'r ymchwil yn awgrymu fod pobl sydd wedi ymddeol yn gwerthfawrogi gwneud pethau yn fwy na chael pethau. Mae gallu helpu eraill (teulu neu elusennau, er enghraifft) wedi dod yn bwysicach, nid dim ond ar gyfer y pethau drud ond pethau bach fel:

- Helpu gyda chostau bob dydd;
- Prynu pryd o fwyd i un o'u hanwyliaid; a
- Helpu i dalu am weithgareddau a phethau ychwanegol (yn arbennig i wyrion ac wyresau)

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.retirementlivingstandards.org.uk (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Eich cyfle i gymryd rhan



Mae cyfle cyffrous ar gael i aelod o'r gronfa bensiynau chwarae rôl bwysig wrth helpu i lywodraethu Cronfa Bensiynau Clwyd. Mae cyfnod swydd ar gyfer cynrychiolydd aelodau'r cynllun pensiwn ar Fwrdd Pensiynau Clwyd ("y Bwrdd") yn dod i ben. Er y gellir ail-benodi'r cynrychiolydd presennol, mae gan aelodau eraill o'r cynllun gyfle i wneud cais am y swydd os ydynt yn dymuno.

Rhaid llenwi'r swydd gan unigolyn sydd un ai'n talu cyfraniadau pensiwn ar hyn o bryd, aelod gohiriedig, neu aelod pensiynwr o Gronfa Bensiynau Clwyd. Nid oes angen profiad blaenorol. Fodd bynnag, os oes gennych ddiddordeb rhaid i chi gael tua 15 diwrnod ar gael i baratoi a chymryd rhan mewn cyfarfodydd a hyfforddiant.

Rôl y Bwrdd ydi goruchwyllo rheolaeth y gronfa bensiynau, gan gynorthwyo:

- i sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion cyfreithiol a'r Rheoleiddiwr Pensiynau; a
- sicrhau y caiff y Gronfa ei llywodraethu a'i gweinyddu'n effeithiol ac effeithlon.

Mae'r Bwrdd yn cydweithio â'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau sydd yn gwneud y penderfyniadau ac sydd â chyfrifoldeb gyffredinol dros redeg Cronfa Bensiynau Clwyd. Gall y Bwrdd wneud argymhellion i'r Pwyllgor i helpu i wella proses lywodraethu a gweinyddu'r Gronfa.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys hyd at bedwar o aelodau; dau gynrychiolydd aelod o'r gronfa bensiynau a dau gynrychiolydd cyflogwr. Caiff y Bwrdd ei gadeirio gan aelod annibynnol (a heb bleidlais) pensiwn proffesiynol a'i rôl fydd cynorthwyo'r cynrychiolwyr penodedig â'u dyletswyddau.

Rhaid i'r sawl a benodir fod yn fodlon gweithredu fel cynrychiolydd i bob aelod sy'n talu cyfraniadau pensiwn, aelodau gohiriedig ac aelodau pensiynwr a dibynyddion yng Nghronfa Bensiynau Clwyd. Darperir hyfforddiant llawn gan Gyngor Sir y Fflint gan fod yna ofyniad cyfreithiol fod pob aelod o'r Bwrdd yn ennill a chynnal lefel briodol o wybodaeth am bensiynau. Bydd yn rhaid i ymgeiswyr fod â'r gallu a'r ymrwymiad i fynychu a pharatoi ar gyfer cyfarfodydd a hyfforddiant. Fel nodir uchod, gallai hyn fod yn gyfanswm o tua 10 i 15 diwrnod y flwyddyn, ond ni fydd bob un yn ddiwrnodau llawn. Yn ddibynnol ar amgylchiadau cyflogaeth y sawl a benodir, gallant gael lwfans bychan am bob diwrnod o fusnes y Bwrdd, a bydd costau teithio a threuliau yn cael eu had-dalu yn unol â pholisïau'r Cyngor.

Mae rhagor o wybodaeth am y swydd hon, gan gynnwys sut i wneud cais, ar ein gwefan ar

mss.clwydpensionfund.org.uk/home/investments-and-governance/local-pension-board. Os oes gennych ragor o gwestiynau ar ôl i chi ddarllen yr wybodaeth ar y wefan, yna anfonwch e-bost i pensionboard@sirryfflint.gov.uk. Y dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau yw 15 Ionawr 2025.

Manylion cyswllt Cronfa Bensiynau Clwyd



E-bost: pensiynau@siryfflint.gov.uk
Rhif Ffôn: 01352 702875 (dydd Llun i ddydd Gwener 9am - 5pm)
Gwefan: mss.clwydpensionfund.org.uk
Cyfeiriad: Cronfa Bensiynau Clwyd, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NA

Manylion cyswllt defnyddiol eraill

Mae'r dolenni isod yn mynd i wefannau allanol. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r gwefannau yn uniaith Saesneg.

Gwasanaeth Olrhain Pensiynau	www.gov.uk/dod-o-hyd-i-fanylion-cyswllt-pensiwn	0800 731 0193
HelpwrArian (cyngor ariannol)	www.moneyhelper.org.uk/cy	0800 011 3797
Unbiased (cyngor ariannol)	www.unbiased.co.uk	0800 023 6868
Cyngor ar Bopeth (cyngor ariannol)	www.citizensadvice.org.uk/cymraeg	0800 702 2020 (Cymru) 0800 144 8848 (Lloegr)
Pensiwn y Wladwriaeth	www.gov.uk/pensiwn-y-wladwriaeth-newydd	0800 731 7898

Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn fformatau gwahanol, er enghraifft, Braille, print bras, Fideo/DVD Iaith Arwyddion Prydain, tâp sain ac ieithoedd eraill ar gais.

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.

